CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION EBRILL 14, 2015

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Ebrill 14, 2015 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Janet Edwards, Elfed ap Gomer, John Hughes, Gethin Williams, Carwyn Evans a Llinos Williams. Hefyd Henry Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins a Eirlys Roberts.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 10, 2015

Wedi cywiro Eitem 3, Eitem 8.d. i ddarllen 'Os mae aelod o'r cyhoedd angen cyfieithiad Saesneg o'r wybodaeth ar wefan y Cyngor mae angen rhoi gwybod i'r Clerc neu Elfed ap Gomer', cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 10, 2015

Eitem 5.dd. Rydym wedi derbyn (04/03/15) £430 oddi wrth Gronfeydd Cist Gwynedd, Cyngor Gwynedd am greu gwefan i'r Cyngor.

Penderfynwyd talu'r ffi i Elfed ap Gomer. Ef creodd y wefan.

Eitem 10.b Llythyr (26/3/2015) oddi wrth Edward Harries, Adeiladwr yn rhoi gwybod ei fod wedi trwsio bwa lloches bws, Taicynhaeaf. Nid oes taliad i'w gwneud am y gwaith.

Penderfynwyd anfon llythyr i Mr Harries yn diolch iddo am ei waith.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (14/3/2015) oddi wrth Mr John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, yn rhoi gwybod mae am archwilio'r Cyfrifon y Cyngor 2014-15 ar Mai 29, 2015.

b. Llythyr (18/3/2015) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 05/04/2015).

ii. Manylion newydd o gyflog y Clerc.

Taliad misol i'r Clerc: £86.75 (£260.25 yn chwarterol).
Taliad misol i Gyllid a Thollau EM: £21.60 (£64.80 yn chwarterol).
Cyfanswm: £1,300.18. Gweler Cofnodion Chwefror 10, 2015.

iii. Bil am £180 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5 Ebrill 2015.

Penderfynwyd talu'r ffi.

c. Bil treth annomestig 2015/16 at Doiledau Bontddu (16.03.2015) oddi wrth Gwasanaeth Trethi, Cyngor Gwynedd. Cael ei dalu trwy Direct Debit. Taliad 08.04.2015 = £31.74, ac yna £27.00 y mis. (Tal blwyddyn diweddaf oedd £27.00 y mis).

Penderfynwyd paratoi Praesept manwl at flwyddyn nesaf.

ch. Balans yn y Banc ar Mawrth 29, 2015: £5,369.60.

d. Derbyniwyd prisiau 2015/2016 Cyngor Gwynedd at daliadau Mynwentydd.

Penderfynwyd trafod y mater yn Cyfarfod nesaf.

dd. Siec am £1860 oddi wrth Dowell Brothers Funeral Directors, Ruthun. Taliad at Jean Haigne Edwards, Dinbych. £570 (claddedigaeth cyntaf) + £360 (hawl claddu) = ££930 x 2 = £1860. Angladd ar Ebrill 1, 2015.

e. Llythyr (30 Mawrth 2015) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 oddi wrth UHY Hacker Young. Angen cwblhau'r ffurflen erbyn 31 Mai 2015.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (9/3/2015) oddi wrth yr Awdurdod yn rhoi gwybod maent yn cynnal sesiwn gwybodaeth yn benodol i Gynghorau Cymuned ar 'Dynodiad awyr dywyll Eryri'. Bydd y sesiwn yn Ty Siamas dydd Mercher 22 Ebrill, 2015 am 5:45 a 6:30.

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/65/329. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adeiladu estyniad deulawr ar yr ochr. 20 Bro Cymer, Llanelltyd.

ii. Cais NP5/65/329. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Uned trîn carthion newydd. Maes Gwersylla Tyddyn Du, Bontddu.

c. Cais NP5/65/LU273A. Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Presennol) ar gyfer carafán sy'n cael ei ddefnyddio fel llety ategol i Fferm Bryn Du, Llanelltyd.
Mae'r awdurdod eisiau gwybod gwybodaeth bersonol (nid y Cyngor) gan Gynghorwyr unigol o ddefnydd y tir yma yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Os mae, mae'r Awdurdod yn dymuno ei gael cyn Ebrill 28, 2015.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (9/3/2015) oddi wrth Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn rhoi gwybod mae eu hadroddiad blynyddol ar gael ar <http://gov.wales/irpwsub/home/publication/2015-16/annual-report-2015-16/?lang=cy>

b. Llythyr (9/3/2015) oddi wrth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae ffurflen i'w chwblhau i gadarnhau os ni yw tirfeddiannwr/deiliad prydles/tenant tir sydd ar ochr ffordd A496 wrth Penygarnedd, Llanelltyd. Maent yn gwneud cais i'r Llys Ynadon i gau rhan yma o'r A496.

Penderfynwyd rhoi gwybod nid oes gan y Cyngor dim i'w wneud a'r tir.

c. Llythyr (12/3/2015) oddi wrth Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod bydd cylchfannau yn cael eu rhoi ar gyffyrdd A479/A494 ac A470/A493. Bydd y gwaith yn cael ei wneud dechrau 2016 ac yn ei gwblhau gwanwyn 2017. Yn y cyfamser bydd goleuadau traffig dros dro yn parhau.

ch. Llythyr (2/2015) oddi wrth BT Payphones yn gofyn a oes gennym ddiddordeb prynu Ciosg lliw coch BT am £1.

e. Llythyr (25Mawrth 2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn gwahodd y Cyngor i gyflwyno cynnig i'w trafod yn eu Cyfarfod Blynyddol ar 3 Hydref 2015.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd, mae angen clirio gwastraff sgubo'r ffordd sydd mewn culfan rhwng Pil yr Hengwrt a Hen Bont Llanelltyd ers diwedd yr haf.